# Comisiwn y Cynulliad

| | | |
|---|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** | Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>National Assembly for Wales |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 7 Chwefror 2013** | |
| Amser: | **10:30 - 12:00** | |

## Cofnodion: AC(4)2013(3)

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Sandy Mewies**<br>**Rhodri Glyn Thomas** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Claire Clancy, Y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad (Swyddog)**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad (Swyddog)**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd (Swyddog)**<br>**Non Gwilym (Swyddog)**<br>**Mike Snook, National Assembly for Wales (Swyddog)**<br>**Carys Evans, Prif Ysgrifennydd y Comisiwn (Swyddog)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding, y Dirprwy Lywydd**<br>**Mair Barnes, Cynghorwr Annibynnol** |

## 1. Introduction

1(i) Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriad gan Angela Burns AC.

1(ii) Datganiadau o fuddiant

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

1(iii) Cofnodion 16 Ionawr a 24 Ionawr i'w cytuno

Cytunwyd ar y cofnodion.

## 2. Allgymorth addysg

Yn dilyn trafodaethau yng nghyfarfod y Comisiwn ar 16 Ionawr 2013, roedd y Comisiynwyr wedi holi eu grwpiau i gasglu eu barn am y cynnig i ymestyn y gwaith allgymorth addysg presennol i greu senedd ieuenctid. Rhannwyd adborth gan y grwpiau, a chytunwyd y byddent yn cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau i'r gwaith yn y maes hwn.

Nododd y Comisiynwyr y digwyddiad addysg a gynhaliwyd yn y Cynulliad yr wythnos hon, a'i fod yn enghraifft ragorol o'r gwaith safonol iawn a wneir yn y maes hwn, a phwysleisiwyd bod angen i'r digwyddiad ac unrhyw fentrau newydd adeiladu ar batrwm y gweithgaredd enghreifftiol hwn.

Bu'r Comisiynwyr yn trafod y dull gweithredu a awgrymwyd ar gyfer cynnwys grwpiau perthnasol yn y cynigion. Cytunwyd mai ffocws gweithgaredd o'r fath fyddai cynnwys grwpiau o bobl ifanc mewn ymarferion ar ddinasyddiaeth a democratiaeth, ac y byddai gwahaniaeth pendant rhyngddo â gweithgareddau a drefnir gan grwpiau a sefydliadau eraill. Cytunwyd hefyd y dylid cynnal adolygiad o'r gwaith amrywiol iawn a gyflawnir gan y gwasanaeth addysg, er mwyn nodi meysydd i ganolbwyntio arnynt o'r newydd. Dylai'r gwaith ymgorffori llwyddiannau a gwersi a ddysgwyd gan ddeddfwrfeydd eraill.

Gofynnodd y Comisiwn a fyddai modd cyflwyno canfyddiadau'r adolygiad mewn cyfarfod ym mis Ebrill, fel bod modd ystyried y camau nesaf.

## 3. Ystad sy'n addas i'r diben – Portico allanol

Yn dilyn trafodaeth ar 29 Tachwedd ynghylch awgrymiadau i wella mynedfa a derbynfa Tŷ Hywel, cyflwynwyd cyfres o gynigion newydd gan Peter Black AC a Sandy Mewies AC.

Nodwyd bod 100,000 o bobl yn defnyddio'r fynedfa i Dŷ Hywel bob blwyddyn a bod y trefniant presennol yn golygu bod ymwelwyr, gan gynnwys pobl ifanc sy'n dod ar ymweliadau addysg, yn aml yn gorfod aros mewn llinell y tu allan i'r prif ddrysau, ym mhob tywydd. Nododd y Comisiynwyr hefyd fod pobl sydd ag anableddau yn gorfod defnyddio mynedfa ar wahân.

Roedd y Comisiynwyr yn pryderu nad oedd y cyfleusterau yn:
- darparu mynediad cyfartal i bawb i'r ystâd;
- cefnogi'r targedau a gyrhaeddir o ran lleihau allyriadau ynni a charbon o ganlyniad i golli gwres;
- darparu'r trefniadau diogelwch mwyaf effeithiol; neu'n
- darparu profiad priodol i ymwelwyr.

Gan nodi nad yw'r cyfleusterau wedi cael eu gwella ers tua deng mlynedd, a bod angen eu hadnewyddu, cytunwyd y byddai'r cynigion diwygiedig i adeiladu mynedfa orchuddiedig yn darparu ateb ymarferol a rhesymol i'r problemau mynediad, diogelwch a chynaliadwyedd. Bydd y gwaith hwn yn digwydd yn ystod toriad yr haf er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar yr hyn sy'n digwydd yn yr adeilad. Byddai'r swyddogion yn ymchwilio i ba raddau y gellid gwella'r cynnig er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r gofod a fyddai ar gael.

## 4. Unrhyw Fusnes Arall

Nid oedd dim materion eraill i'w trafod.

**Yr Ysgrifenyddiaeth**

**Chwefror 2013**